Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penmaenmawr

**Ysgol Pencae**
**Craiglwyd Road**
**Penmaenmawr**
**Conwy**
**LL34 6YG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Penmaenmawr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penmaenmawr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Denise Fisher |
| Person â gofal | Emma Jones |
| Nifer y lleoedd | 25 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun i Gwener<br><br>9.05yb tan 1.00yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Gorffennaf 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29/06/2022 |
| Daw lleiafrif y plant o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi canfod diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â gofal a datblygiad, ac rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r darparwr. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau'n syth i'w cywiro ynghyd a gwneud gwelliannau

Hefyd hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r darparwr roddi sylw iddynt.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gryno ar weithredu a gwella, fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru yn unig.

## Argymhellion

A1 Defnyddio gwybodaeth am gynnydd plant er mwyn cynllunio'n fwy bwriadus ar eu cyfer

A2 Diweddaru'r asesiadau risg

A3 Diweddaru polisïau a dogfennau'r cylch i adlewyrchu prosesau'r gwasanaeth

A4 Adeiladu ar y bartneriaeth gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi datblygiad a dysgu eu plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn symud rhwng gwahanol weithgareddau yn hyderus. O ganlyniad, maent yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol, fel defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau o'u hoff weithgaredd neu o'u ffrindiau. Maent yn hapus i ofyn cwestiwn neu holi am rywbeth gan eu bod yn cael ymateb da gan ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r plant sy'n llai hyderus yn derbyn cymorth gan ymarferwyr i'w helpu i setlo. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd gyda threfniadau'r diwrnod. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd syth at y carped ar ddechrau'r sesiwn ac yn gwneud rhesi wrth y tŷ bach i olchi dwylo cyn snac heb gael eu hatgoffa gan yr ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgaredd grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio'n hapus yn yr ardal chwarae rôl wrth olchi'r llestri. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a chyfoedion, ac yn mynd at ymarferwyr i rannu eu chwarae neu am gysur.

Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, fel arllwys dŵr i lawr y cafnau ac i mewn i'r twba. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r nesaf, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu boddau yn 'peintio' wal eu hystafell gyda dŵr, gan ofyn am help oddi wrth ffrindiau ac yn rhannu eu cynlluniau gyda phlentyn a oedd awydd ymuno yn yr hwyl. Mae bron bob un yn awyddus i ymuno a chyfrannu i ganeuon a straeon yn ystod amser cylch ac maent yn dangos pleser wrth wneud hyn. Mae llawer ohonynt yn parhau i ganu yn ystod eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn aros eu tro ac yn dangos amynedd da, fel pan yn aros i chwarae gyda'r beiciau.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth addas. Er enghraifft, mae rhan fwyaf o'r plant yn rhoi cotiau a bagiau ar y bachyn, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, ac yn golchi a sychu eu wylo yn ddi-gymell.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhwyle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant yn y gwasanaeth. Maent yn gweithredu polisïau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy’n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’u hanghenion a’u hoffderau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy’n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Fodd bynnag, nad ydynt yn dilyn eu polisi diogelu plant bob amser. Nid yw trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion, ac maent yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a’u gallu. Er enghraifft, maent yn hybu arferion cadw’n iach yn rheolaidd ac yn gosod eu hunain yn dda er mwyn arsylwi ar y plant. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl dda. Maent yn gwrando ar safbwyntiau plant, ac yn ymateb yn dda i’w cyfathrebu ar lafar neu’n ddi-eiriau. Mae rhyngweithio’r ymarferwyr â’r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda’r plant. O ganlyniad, mae’r plant yn dilyn cyfarwyddiadau’r ymarferwyr yn gyson. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd ymarfer corff, gofynnodd ymarferwyr i'r plant gymryd rhan mewn gemau taflu a dal, gemau redeg ac aeth y plant yn syth i wneud. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus gan drafod a chwestiynu plant am gyfleoedd chwarae neu wrth rannu syniadau chwarae gyda nhw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn egluro gweithgareddau a gwneud awgrymiadau am sut y gallai’r plant chwarae gyda gwahanol adnoddau. Mae ymarferwyr yn dilyn prosesau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymyrraethau penodol yn cael eu gweithredu’n rheolaidd gan yr ymarferwyr sy’n cael effaith bositif ar ddatblygiad iaith a lleferydd y plant. Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod o gyfleoedd i’r plant datblygu sgiliau annibyniaeth.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn deall gofynion cwricwlwm yn dda. Maent yn dechrau cyflwyno ethos y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus drwy flaenoriaethu rôl yr ymarferydd a sefydlu amgylchedd dysgu priodol. Mae ymarferwyr yn dethol pryd i ymyrryd yn synhwyrol yn y chwarae a phryd i adael i'r plant ddarganfod drostynt eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn deall y plant yn dda ac maent yn gweithredu'n frwdfrydig a chydwybodol wrth annog eu dysgu a hyrwyddo eu lles. Mae ymarferwyr yn hyblyg ac yn addasu'r profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd buddiol i gyfleu eu syniadau a chynnal eu diddordeb.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant yn effeithiol ac yn rhan annatod o'r ddarpariaeth. O ganlyniad mae rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn werthfawr o ganlyniad i brofiadau buddiol fel arbrofi â thap mesur a didoli a chyfri offer bach yn yr ardal ddarganfod. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er enghraifft wrth ddefnyddio offer digidol i greu rhestr siopa yn yr ardal tŷ bach twt a ffurfio marciau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus trwy weithgareddau fel annog iddynt gydbwyso eitemau ar eu pen, ymarfer taflu bagiau ffa a thrin a gwasgu clai yn yr ardal darganfod. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau creadigol trwy chwarae offerynnau cerdd ac arbrofi â phaent yn yr ardal greadigol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd pwrpasol ac estynedig i ymestyn eu medrau meddwl.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn darparu cyfleoedd da trwy'r profiadau ymarferol i blant ystyried eu teimladau a theimladau eu cyfoedion wrth cyd-chwarae. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddathliadau Cymru yn effeithiol trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru.

Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn rhannu adborth am ddatblygiad a chyraeddiadau plant ar lafar gyda'r arweinydd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd ystyrlon er mwyn mireinio a datblygu agweddau o'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth fuddiol gyda rhieni a gofalwyr yn gyson ar gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhannu gwybodaeth am gryfderau'r plant, a'r agweddau sydd angen eu datblygu.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r lleoliad wedi'i leoli mewn estyniad newydd ar safle'r ysgol. Mae arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel, a glân ar gyfer plant. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal yn yr awyr agored i gael gwared â pheryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg generig digonol. Fodd bynnag,

nid yw’r asesiadau risg yn ymdrin â phob ardal o’r gwasanaeth. Er enghraifft, nad oes asesiad risg ar gyfer y buarth fawr. Mae’r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae’r plant yn cael y cyfle i fynd i’r toiledau a defnyddio’r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r arweinydd yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd a threfniadau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae prif ystafell y gwasanaeth yn groesawgar a chyfeillgar, ac yn cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o’r ystafell a’r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo profiadau dysgu trwy cynnig adnoddau go iawn sydd wedi storio ar lefel isel. Hefyd, mae digonedd o le i ymarferwyr gefnogi gweithgareddau grŵp yn dda, fel chwarae anniben neu amser stori. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau plant ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae arweinydd yn sicrhau eu bod yn defnyddio’rgofod chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

Mae'r arweinydd yn sicrhau y gall bron bob un plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy’n briodol o ran oedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i’r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o’r cartref ar gael. Mae'r arweinydd yn darparu rhywfaint o adnoddau i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a’u diddordeb. Mae’r plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio buarth fawr yr ysgol yn ddyddiol er mwyn datblygu eu sgiliau sgiliau echddygol bras.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ac mae’n llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn canolbwyntio ac ymroi'n llwyr at ddatblygu rôl yr ymarferwyr a chreu amgylchedd cyfoethog. Mae’r holl ymarferwyr yn cydweithio’n dda er mwyn creu awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant.

Mae'r arweinydd wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth sy'n adnabod cryfderau a meysydd i ddatblygu. Mae hyn wedi arwain at flaenoriaethau pwrpasol sy'n arwain at dargedau sefydlog a realistig. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio ar sefydlu gweithdrefnau asesu i gyfoethogi rôl yr oedolyn a'r amgylchedd dysgu ymhellach. Mae’r gwaith hwn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau’r plant.

Mae’r arweinydd yn gwneud yn fawr o bartneriaethau i gefnogi gwaith y lleoliad ac yn manteisio ar gyngor a hyfforddiant athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn darparu profiadau chwarae addas sy'n annog y plant i fentro ac i archwilio’n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau collwyd cyfleoedd i fodelu ac herio’r dysgu. Mae'r lleoliad hefyd, gyda chefnogaeth reolaidd asiantaethau

cefnogi yn llwyddo i gynllunio cyfleoedd pwrpasol a pharhaus i blant ddatblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn dilyn prosesau da ynglyn â recriwtio staff. Mae gan ymarferwyr brofiad a chymwysterau priodol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau’n dda. Maent yn cyfarfod yn anffurfiol i roi adborth ynglŷn â sut mae plant yn ymgysylltu yn y chwarae. Maent yn trafod pa newidiadau sydd angen eu cyflwyno yn yr amgylchedd dysgu er mwyn ymateb i anghenion a datblygiad y plant. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn llwyddo creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, nid yw’r arweinydd wedi sicrhau bod pob ymarferydd wedi derbyn arfarniadau blynyddol na goruchwyliaeth reolaidd.

Mae'r lleoliad yn dilyn rhan fwyaf o brosesau a pholisïau’r gwasanaeth yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw’r polisïau yn adlewyrchu’r gwasanaeth yn llwyr gan eu bod yn cyfeirio at y person cofrestredig. Mae ganddyn nhw ddatganiad o ddiben addas sy’n cynnwys y rhan fwyaf o’r wybodaeth ofynnol.

Mae'r lleoliad wedi ffurfio ystod o bartneriaethau buddiol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda’r ysgol ac yn gefnogol i'w gilydd wrth iddynt drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, mae gan y lleoliad berthynas dda gyda rhieni, ond nid yw'r arweinydd yn darparu gwybodaeth reolaidd i rieni ynglŷn â dysgu a chynnydd eu plant. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid gan ddarparu cyflenwad addas o adnoddau o safon fel amgylchedd naturiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2022